

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (HEOL
Y DOLL, MACHYNLLETH, POWYS)
(GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A
CHERDDWYR DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, ym Machynlleth, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r de hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd o'r bont reilffordd ar Heol y Doll, Machynlleth.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A487 tua'r gogledd i Cross Foxes, ar yr A470 tua'r de i gylchfan Glantwymyn ac ar yr A489 tua'r de-orllewin i gyffordd tŵr y cloc ym Machynlleth i ailymuno â'r A487: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 14 Medi 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol o 23:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw tan 06:00 o'r gloch ar 15 Medi 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod mewn grym. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (HEOL Y DOLL,
MACHYNLLETH, POWYS) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS &
PEDESTRIANS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Machynlleth, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A487 trunk road that extends from a point 20 metres south to a point 20 metres north of the railway bridge at Heol y Doll, Machynlleth.

The alternative route for southbound traffic is via the northbound A487 to Cross Foxes, southbound A470 to Cemmaes Road roundabout and south-westbound A489 to the clock tower junction at Machynlleth to rejoin the A487: vice versa for northbound traffic.

The Order comes into force on 14 September 2021. The temporary prohibitions are expected to operate from 23:00 hours on that date until 06:00 hours on 15 September 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government